

CHWALU'R CHWEDLAU AM SIPSIWN A THEITHWYR

Pwy yw Sipsiwn a Theithwyr?

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn diffinio Sipsiwn a Theithwyr fel:

- (a) Unigolion sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys -*
- (i) Unigolion sydd, ar sail eu hanghenion addysg neu iechyd neu henaint eu hunain neu rai eu teuluoedd neu ddibynyddion yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol; ac*
- (ii) Aelodau o grŵp wedi'i drefnu o deithwyr sioe neu deithwyr syrucas (p'un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); ac*
- (b) Unrhyw unigolion eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.*

'Pwy yw Sipsiwn Romani?'

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Sipsiwn Saesneg, Cymreig ac Albanaidd a Roma Ewropeaidd. Gwyddom mai Sipsiwn Romani yw'r hynaf o'r cymunedau Teithwyr a gellir olrhain eu gwreiddiau yn ôl i Ogledd India dros 1,000 o flynyddoedd yn ôl. Gelwir eu hiaith yn Romani / Rom.

'Pwy yw Teithwyr Gwyddelig?'

Cafodd y Teithwyr Gwyddelig cyntaf eu cofnodi yn yr 8fed Ganrif fel gweithwyr metel teithiol ac atgyweirwyr offer y cartref. Gelwir eu hiaith yn 'Cant' neu 'Gammon' a Pabyddiaeth yw eu ffydd yn bennaf ac mae'n well ganddynt anfon eu plant i ysgolion Pabyddol.

Mae sipsiwn yn rhannu diwylliant, iaith a system gred, yn yr un modd â Theithwyr, ac mae'r ddau grŵp yn cael eu cydnabod fel grwpiau lleiafrifoedd ethnig o dan y ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol. Hefyd mae gan bob sefydliad sector cyhoeddus ddyletswydd gadarnhaol o dan y gyfraith i ddileu camwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cyfle cyfartal, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

'A yw pob Sipsi a Theithiwr Gwyddelig yn teithio?'

- Mae cyfraith cynllunio yn diffinio Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig fel pobl sydd â ffordd deithiol o fyw. Er bod hyn yn wir yn y gorffennol, mae 90% o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig o amgylch y byd bellach yn byw mewn tai. Pan fo Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tai mae eu diwylliant a'u treftadaeth yn aros gyda nhw, nid oes raid i chi deithio i fod yn Deithiwr.
- Mae rhai grwpiau yn hynod symudol ac yn symud ymlaen ar ôl i gyfleoedd gwaith derfynu ac mae eraill yn byw mewn un ardal yn barhaol neu'n teithio am ychydig wythnosau neu fisoedd y flwyddyn yn unig.
- Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn cymunedau clos, boed hynny mewn tai neu ar safleoedd carafanau, ac mae ganddynt rwydweithiau teuluol a chymdeithasol cryf. Mae Sipsiwn a Theithwyr bellach yn defnyddio cerbydau a charafanau modern sydd o safon uchel.
- Eu prif resymau dros deithio yw gwaith, dilyn ffeiriau ac ymweld â theulu.

'Roeddwn i'n meddwl mai teithio yw holl bwrpas bod yn Sipsi neu Deithiwr? Pam fod angen safleoedd parhaol arny'n nhw?'

Er bod Sipsiwn a Theithwyr yn teithio am rywfaint o'r flwyddyn, yn ystod misoedd y gaeaf mae angen lle i aros ar y rhan fwyaf o bobl...

- Mae patrymau teithio yn gysylltiedig â'r tymhorau a gwaith sy'n gysylltiedig â'r tymhorau. Nid yw Sipsiwn a Theithwyr yn teithio yn ddyddiol drwy gydol y flwyddyn. Mae angen lleoedd diogel ar y teuluoedd i deithio ohonynt. Y safle 'sylfaen' (os oes ganddynt un) yw'r lle y maent yn cael mynediad at feddygfeydd, ysgolion a deintyddion.
- Wrth i Sipsiwn a Theithwyr fynd yn hŷn nid ydynt yn gallu teithio mor rheolaidd, mae angen lle diogel ar rai ohonynt i aros lle gallant gynnal eu traddodiadau diwylliannol o fod yn Sipsi neu Deithiwr. Ambell waith mae Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn rhoi'r gorau i deithio am gyfnodau er mwyn gofalu am aelodau o'u teulu sy'n wael neu'n hŷn neu i barhau i roi addysg i'w plant mewn amgylchedd ysgol gefnogol. Bydd y teuluoedd yn ailafael yn y ffordd deithiol o fyw eto yn dilyn y digwyddiadau hanfodol hyn.

'Pam fod Sipsiwn a Theithwyr yn aros ar ochr y ffordd?'

Nid oes digon o leoedd awdurdodedig iddyn nhw aros; efallai bod angen lle arnynt i aros ar eu ffordd i briodas neu angladd deuluol yn yr ardal, neu un o'r ffeiriau Ceffylau niferus. Gelwir y rhain yn wersylloedd diawdurdod. Mae'r Llywodraeth yn eu diffinio fel "carafanau a/neu gerbydau eraill sy'n gweryslla ar dir heb ganiatâd perchennog neu feddiannydd y tir"; mae tresbasu yn torri rheolau sifil yn hytrach na rheolau troseddol. Yn genedlaethol, mae 21%

o'r holl Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sy'n byw mewn carafanau yn ddigartref; mae hyn yn golygu nad oes ganddyn nhw unrhyw le cyfreithiol i barcio eu carafán. Un ateb i'r broblem hon fyddai darparu safleoedd parhaol a safleoedd teithiol (sef safleoedd pwrpasol ar gyfer arosiadau byr. Fel arfer mae safleoedd felly yn barhaol, ond mae cyfyngiad ar yr amser y gall preswylwyr aros yno).

'Pam fod rhaid i'r cyngor ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?'

O dan ofynion y Ddeddf Tai 2014 a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 30/2007 'cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr', mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol nodi anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardaloedd a darparu ar gyfer unrhyw anghenion a nodwyd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd lle mae angen wedi'i nodi. Mae gofyn i bob awdurdod lleol gwblhau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n nodi eu gofynion llety. Nid oes unrhyw Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr swyddogol yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd. Gallai methu â darparu safle arwain at gynydd mewn gwersylloedd diawdurdod ac mae'n bosibl y bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi yn dilyn apêl i safleoedd mewn lleoliadau anaddas. Yn seiliedig ar ganfyddiadau Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych, mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu 6 llain preswyl. Hefyd, nododd yr asesiad bod angen darparu 4-5 llain deithiol, ar hyd gogledd y sir ar hyd coridor yr A55.

'Pwy sy'n mynd i dalu?'

Mae dau opsiwn:

- **Darpariaeth gyhoeddus** – i gydnabod pwysigrwydd yr angen i ddarparu safleoedd, mae'n bosibl gwneud cais i Lywodraeth Cymru am grantiau i dalu costau datblygu safleoedd newydd a ddarperir, ac ailwampio safleoedd presennol; mae hon yn broses debyg i'r broses o ariannu tai fforddiadwy i'r boblogaeth sefydlog.
- **Darpariaeth breifat** – byddai'r tir yn cael ei nodi yn y Cynlluniau Datblygu Lleol a gallai unigolion brynu tir i ddiwallu anghenion eu teuluoedd neu hunan-reoli ond nid pob Sipsi a Theithwr sy'n gallu fforddio prynu a datblygu ei dir ei hun

'A yw Sipsiwn a Theithwyr yn talu trethi a rhent?'

- Mae'r holl Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd awdurdodau lleol neu safleoedd preifat yn talu treth y cyngor, rhent, taliadau nwy, trydan a phob taliad arall a fesurir yn yr un dull â thai eraill.
- Yn gyffredinol, nid yw'r rheiny sy'n byw mewn gwersylloedd diawdurdod yn talu treth y cyngor, ond nid ydynt chwaith yn derbyn gwasanaethau fel arfer. Ar rai achlysuron darperir gwasanaethau sylfaenol, megis toiledau neu finiau ar olwynion, ac efallai y bydd Sipsiwn a Theithwyr yn talu am y gwasanaeth hwn yn uniongyrchol i'r awdurdod lleol priodol.
- Mae Sipsiwn a Theithwyr, fel pob preswlydd yn y DU, yn talu trethi ar y pethau y maent yn eu prynu, petrol a threth ffordd.

'Bydd gosod safleoedd Sipsiwn gerllaw yn cynyddu lefelau troseddu'

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu mai dyma fyddai'r achos. Unigolion sy'n troseddu ac nid cymunedau. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl yn dangos bod nifer anghymesur o droseddwr mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr o'i gymharu ag unrhyw gymuned arall. Mae gwasanaeth yr heddlu wedi dysgu o brofiad blaenorol na ellir creu stereoteipiau sy'n creu cyswllt rhwng troseddau penodol â grwpiau ethnig neu gymdeithasol. Yn Swydd Caer er enghraifft, mae plismona cymdogaethol a chyflogi Swyddogion Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth. Mae nifer o Deithwyr yn dychwelyd i'r un safleoedd flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn dod i adnabod swyddogion a thrigolion lleol. Mae llawer llai o broblemau o ran gwersylloedd diawdurdod ledled y sir nag oedd yn bodoli bump neu ddeng mlynedd yn ôl. (Heddlu Swydd Caer 2011).

'Beth mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud?'

- Mae'r Cyngor yn gweithio mewn dull rhagweithiol i fynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae yn y broses o nodi darnau o dir addas i fod yn safleoedd awdurdodedig.
- Rydym hefyd yn rhan o weithgor rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol eraill o ogledd Cymru i ddeall ac ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau fod gwasanaethau yn briodol ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Am fwy o fanylion cysylltwch â:

1. Kim Waller (Rheolwr Prosiect 01824 706113)
2. Angela Loftus, (Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai 01824 706912)
3. Sue Lewis (Uwch Swyddog – Strategaeth a Phartneriaethau 01824 706843)